**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/135/2026

Elin Jones AS/MS
Y Llywydd
Senedd Cymru

Copi at: Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Mawrth 2026

Annwyl Elin,

Yn y cyfarfod llawn ar 27 Ionawr, gofynnodd Adam Price gwestiwn dirybudd imi ynglŷn ag agwedd ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau Rhif 2") y cyfeiriwyd ati yn y dyfarniad yn achos ATB v Gweinidogion Cymru.

Rwyf wedi adolygu'r mater. Yn benodol, effaith Rheoliadau Rhif 2 oedd diwygio eithriad i'r cyfyngiad ar ragnodi meddyginiaethau atal y glasoed a sefydlwyd yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024"). Fodd bynnag, yn y nodiadau esboniadol a'r memorandwm esboniadol ar gyfer Rheoliadau Rhif 2, disgrifiwyd mai'r effaith oedd estyn y cyfyngiad hwnnw.

Yn achos ATB v Gweinidogion Cymru, eglurodd Llywodraeth Cymru y pwynt hwn yn ein crynodeb o'r seiliau dros wrthwynebu.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cytuno â'r pwyntiau a nodir gennyf yn y llythyr hwn.

Roedd y bwriad cyffredinol fel y'i nodwyd i'r Senedd ar yr adeg y cafodd Rheoliadau Rhif 2 eu hystyried yn gywir ac nid yw wedi newid – hynny yw, na ellir rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed mewn practisau cyffredinol y GIG yng Nghymru ar gyfer plant dan 18 oed, ac eithrio o dan eithriadau cyfyngedig. Yn yr ystyr cyffredinol hwn y ceisiodd Llywodraeth Cymru gyfleu effaith y ddwy set o reoliadau fel rhai sy'n gosod cyfyngiadau ar ragnodi meddyginiaethau atal y glasoed ar gyfer plant dan 18 oed gan y GIG yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Defnyddiwyd cyfeiriadau yn y memorandwm esboniadol a'r nodyn esboniadol at Reoliadau Rhif 2 yn estyn neu'n ehangu'r cyfyngiadau, ac i egluro bod y cyfyngiadau yn gymwys i “unrhyw ragnodwr sy'n gweithio o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol”, yn yr ystyr cyffredinol hwnnw o ddisgrifio'r effaith gyffredinol ar draws ymarfer cyffredinol, sef y byddai pob rhagnodwr sy'n gweithio o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol, yn y bôn, yn ddarostyngedig i'r un gyfundrefn (ac felly yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ac eithriadau). Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedwyd wrth yr Aelodau ac â'r hyn a fyddai wedi'i ddeall o'r cyd-destun ar y pryd, yn fy marn i. Mae'r memorandwm esboniadol, o'i ddarllen yn ei gyfanrwydd ac ochr yn ochr â'r nodyn esboniadol a'r ddadl, yn cyfleu'r bwriad a'r canlyniad hwnnw.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol ystyried effaith rheoliad 3 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 (“Rheoliadau 2004”) a ddiwygiwyd gan Reoliadau 2024 a Rheoliadau Rhif 2. Yn rhinwedd rheoliad 3, diben ychwanegu meddyginiaethau atal y glasoed at Atodlen 2 i Reoliadau 2004 oedd sefydlu gwaharddiad ar archebu meddyginiaethau atal y glasoed ar gyfer cleifion o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ddarostyngedig i eithriadau (rheoliad 3(a) a (b)). Roedd Rheoliadau 2024 wedi gwneud darpariaeth fel y gallai meddyg teulu archebu meddyginiaethau atal y glasoed ar gyfer plant dan 18 oed ond dim ond ar gyfer triniaeth heblaw atal y glasoed mewn cysylltiad â dysfforia rhywedd, anghyfathiant rhywedd neu gyfuniad o'r ddau. Yr effaith oedd bod rhagnodwyr nad ydynt yn feddygon teulu o dan gontractau gwasanaethau meddygol cyffredinol wedi'u gwahardd rhag gwneud hyn yn rhinwedd y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2024. Gwnaeth Rheoliadau Rhif 2 ddiwygiad pellach mewn perthynas â'r cyfyngiad hwn ar y cleifion a'r dibenion y gellid archebu meddyginiaethau atal y glasoed ar eu cyfer o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Diben y diwygiad hwn, mewn gwirionedd, oedd sicrhau bod pob rhagnodwr o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiad ar y cleifion a'r dibenion y gellid archebu meddyginiaethau atal y glasoed ar eu cyfer. Yn yr ystyr hwn y gwnaed y cyfeiriadau at estyn neu ehangu'r cyfyngiad.

Yn gryno, roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn y memorandwm esboniadol a'r nodyn esboniadol ar gyfer Rheoliadau Rhif 2 yn adlewyrchu'r realiti ymarferol y byddai'r cyfyngiadau yn gymwys i unrhyw un sy'n rhagnodi mewn practis cyffredinol y GIG o dan gontractau gwasanaethau meddygol cyffredinol, sef y bwriad polisi datganedig.

Nid wyf o'r farn y byddai'r Senedd wedi cael ei chamarwain ynghylch effaith gyffredinol Rheoliadau Rhif 2. Fodd bynnag, wrth adolygu'r mater, credaf fod camgymeriad anfwriadol wedi'i wneud yn y nodyn esboniadol a'r memorandwm esboniadol ar gyfer Rheoliadau Rhif 2. Mae Ysgrifennydd y Cabinet a minnau'n cytuno y dylid cywiro'r cofnod, ac rydym yn ymddiheuro am y camgymeriad anfwriadol wrth ddisgrifio effaith gyfreithiol benodol y Rheoliadau hynny.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery